

GAN MAI ychydig iawn a welais mewn print am hanes 'Y Rhedegydd' a gan fod y pwt a geir amdano yn y 'Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru' yn wallus, ceisiaf roi darlun cryno o'i hanes.

Newyddiadur wythnosol Cymraeg a Radicalaidd a argreffid ym Blaenau Ffestiniog ar gyfer rhai o ardaloedd Meirion, Arfon a Sir Ddinbych oedd 'Y Rhedegydd'. Bu dyddiad ei gychwyn yn destun dadlau yn y gorffennol. Mynnai rhai mai yn y flwyddyn 1877 y daeth o'r wasg gyntaf, a dadleuai eraill mai'r flwyddyn 1879 oedd hi. Ond y gwir amdani yw mai'n hwyr ar un nos Sadwrn o Fai 1878 y gwelodd y papur olau dydd gyntaf.

Gyda llaw, bedyddiwyd y papur â'r enw 'Y Rhedegydd Buan' yn wreiddiol, ond ar ôl ysbaid, gollyngwyd y 'Buan' ohono. Ond 'Y Rhedegydd Buan' oedd y newyddiadur wythnosol cyntaf i'w argraffu yn nhref Blaenau Ffestiniog.

Ei brif sylfaenwyr oedd W Lloyd Roberts (Roberts Bach), y perchennog, y Parch T R Davies (Crugwyson), a fu'n weinidog ar Gapel Salem (A), Rhiwbryfdir am rai blynyddoedd, y Parch J Barrow Parry, gweinidog Capel Bethania (A) ar un adeg, a George H Ellis, Cyfreithiwr, a chyd-berchennog y newyddiadur yn ei ddyddiau cynnar.

Dywedir mai yn Ael y Bryn, Llwyn y Gell, Blaenau Ffestiniog, cartref W Lloyd Roberts y pryd hynny, y penderfynwyd ar y fenter. Argreffid y papur i ddechrau gan wasg Jones a Roberts, Caxton Works, Blaenau Ffestiniog, adeilad a safai gerllaw Capel Ebenezer (W) yn y dyddiau gyntaf. Yn ystod ei flynyddoedd cyntaf deuai'r Rhedegydd o'r wasg ar nos Sadwrn, a'i bris oedd dim fel y tystia'r englyn canlynol o waith David Owen Hughes (Dolafon):

Rhaid agor y 'Rhedegydd' — â dimai

*Am damaid o newydd;
Y banc da am bwnc y dydd
A hynawsaf hanesydd.*

Er bod amryw o bwysigion lleol y Blaenau yn teimlo nad oedd yr ardal yn lle digon pwysig i gael newyddiadur, fe newidwyd eu meddyliau ar ôl ymddangosiad y rhifyn cyntaf. Gwnaeth argraff fawr ar y trigolion, a phan ddaeth y Sadwrn dilynol, 'roedd llu o bobl yn holi amdano ar hyd Stryd Fawr y dref.

Yn ei atgofion dywed y bardd Isaac Eurfyn Benjamin ei fod yn gweithio yn Chwarel Cwm Orthin yn pryd hynny a bod nifer o'r dynion a weithiau yno, David Evans (Teifion) yn eu plith, bron iawn a thorri eu

STEFFAN ab OWAIN a dyddiau mawr

Hen ragREDEGYDD golud y papurau bro



W.L.I. Roberts

boliau o eisiau ei weld. A phan oedd hi tua phedwar o'r gloch y pnawn anfonwyd llanc ifanc, brodor o'r Rhondda yn wreiddiol, a chyd-weithiwr iddynt, i lawr i'r dref i holi a oedd y papur yn dod allan.

Rhedodd y llanc yr holl ffordd at yr argraffdy a phan gyrhaeddodd y lle pwniodd ddrws talcen yr adeilad a galwodd arnynt ynddo — ble'r oedd y papur?

Daeth Roberts Bach allan mewn chwinciad a gofynnodd beth oedd yn mater? 'Eisio gwybod ydi'r papur yn dod allan yr wythnos yma. Ydio'n barod?' meddai'r llanc. 'Mae jyst a bod', medd Roberts, gan droi ar ei sawl ac yn ôl at y peiriannau.

* * *

YN WIR ichi, nid oedd raid iddynt bryderu yn ei gylch o gwbl, a daeth yr ail rifyn allan mewn da bryd, yn llawn o newyddion, barddoniaeth a hanesion. Ac o wythnos i wythnos, am fisoedd lawer wedyn, cododd gwerthiant Y Rhedegydd hyd nes iddo sefydlu lle iddo'i hun ymhlith newyddiaduron amlycaf Gogledd Cymru.

Serch hynny, fel llawer newyddiadur arall, byddai'r Rhedegydd yn baglu ac yn tramgwyddo ar adegau. Ceid camgymeriadau arswydus ynddo o bryd i'w gilydd, er mai troi'n hwyl a fyddai'r rheini gan amlaf.

Un tro, yn ystod ei blentyndod, drwy ryw amryfusedd cafwyd adroddiad anghywir ynghylch damwain a gafodd Thomas Jones (Yr Hen Berson) a anafwyd yn ddifrifol drwy i dwll danio arno yn Chwarel Holland. 'Roedd un o'r enw John Jones yn y gwely agosaf ato yn yr Hen Ysbyty ac



'Hys-bys' gynnar

fe gofiai ef yr helynt yn iawn. Dyma'r hanes yn ei eiriau ef:

'Yr oedd hanes y ddamwain i Thomas Jones yn Y Rhedegydd Buan yr wythnos ddilynol, ac ar ddiwedd y nodiad — 'drwg gennym ddeall i'r ddamwain brofi yn anghueol'. Dyna hwyl gaed y prynhawn hwnnw wrth ddarllen yr hanes i Thomas Jones. Bore drannoeth yr oedd Thomas Jones wedi sicrhau papur ac inc wrth ei wely i ddisgwyl y meddyg. Pan gyrhaeddodd y meddyg bu ffrac fawr rhyngddo a'r claf. Mynnai Thomas Jones i'r meddyg ysgrifennu cyfres o benillion wnaed ganddo i'w hanfon i'r Rhedegydd cyn cael ei drin, tra mynnai y meddyg orffen ei waith ei hun i ddechrau. Y claf drechodd.

Yr wythnos ddilynol ymddangosodd y penillion yn Y Rhedegydd — y pedair llinell gyntaf yn unig a gofiai:

*Ar forau gaeafaid du
O ddrws y clafdy draw,
Cychwynwyd corffyn gwael ei lun*

I gwr y Llan gerllaw.

Dyna un tro trwstan yn hanes y papur. Bu llawer mwy.

* * *

YN YSTOD y blynyddoedd hyd at ddechrau'r ganrif hon, prentisiwyd nifer o lanciau yng Ngwasg Jones a Roberts, ac yna ar ôl 1887, yn Swyddfa'r Rhedegydd, gwasg W Lloyd Roberts, yn 35 Stryd Fawr, y Blaenau. Yn ddiweddarach, daeth amryw o'r bechgyn hyn yn newyddiadurwyr, argraffwyr, a golygyddion o bwys. Dyma enwau rhai ohonynt, — Evan Rowlands (Ap Llechwedd), Ioan Leiaf, W Roberts (Wil Bach Printar), Thomas Williams (Y Glorian), J N Jones, Evan Pugh (a fu'n oruchwyliwr y

swyddfa a oedd yn Llanrwst), David Thomas a'r Parch R Williams. Bu Thomas Lloyd Jones, cyn-olygydd Y Goleuad yn brentis ar y papur ar un cyfnod o'i yrfa hefyd.

Ond, yn 1885 gadawodd Crugwyson, golygydd Y Rhedegydd y Blaenau, ar ôl cael galwad i ofalu am Eglwys Glandwr, Abertawe. Credaf mai W Lloyd Roberts a fu'n ei olygu am oddeutu'r tair blynedd ddilynol.

Yna yn 1888, daeth R O Hughes (Elfyn), a fu'n is-olygydd ar bapur newydd 'Gwalia' i fyw i Flaenau Ffestiniog ac i olygu'r Rhedegydd. Cafodd Elfyn hwyl garw ar ei olygu, ond yn 1894, penderfynodd symud i swydd yn ein Llyfrgell Gyhoeddus gyntaf.

Gyda llaw, penodwyd Elfyn yn olygydd 'Y Glorian' yn ddiweddarach pan ddaeth Thomas Williams a'r papur hwnnw i olau dydd yn 1899. Dilynwyd Elfyn fel golygydd Y Rhedegydd gan T P Edwards (Caerwyson), bardd, llenor a naturiaethwr o fri. Bu Caerwyson yng nghadair y golygydd tan oddeutu 1906.

Erbyn dechrau'r flwyddyn honno 'roedd Y Rhedegydd druan mewn dŵr poeth. Credaf mei rhyw helynt cyfreithiol oedd y drwg — y papur o dan gyhuddiad o athrod. Beth bynnag, y canlyniad fu i W Lloyd Roberts, y perchennog, roi'r gorau i'r papur a'i werthu.

Yn ystod mis Mawrth 1906 trosglwyddwyd y newyddiadur i ddwylo newydd, sef rhai Lewis Davies a'i Gwmni, Blaenau Ffestiniog. 'Roedd Lewis Davies eisoes yn berchennog ar bapur newydd o'r enw 'Y Gloch', a fu'n cystadlu braidd yn aflwyddiannus â'r Rhedegydd a'r Glorian er y flwyddyn 1903.

Pan gymerodd Lewis Davies y papur drosodd, unwyd y ddau ganddo a dechreuwyd argraffu'r Rhedegydd yn yr un gwely a'r Gloch, sef yn y Co-operative Buildings, lle roedd argraffdy Lewis Davies.

Ymhen rhyw dri mis wedyn ymunodd gŵr o'r Ponciau, Wrecsam yn wreiddiol, mewn partneriaeth yn y papur â Lewis Davies. Ei enw oedd John David Davies ac roedd yn fab-yng-nghyfraith i W Humphreys (Elihu), Blaenau Ffestiniog, golygydd 'Yr Ymwelydd', misolyn Cymraeg y Bedyddwyr Albanaidd.

Roedd J D Davies eisoes wedi cael profiad o argraffu. Treuliodd bum mlynedd fel prentis yn Swyddfa Argraffu David Jones, Rhosymedre. Bu hefyd yn gweithio yn Argraffdy Richard Mills yn Rhosllannerchrugog. Dysgodd y grefft o lenyddiaeth gyda'r gŵr hyddysg hwnnw, a bu'n gohebu i'w bapur wythnosol 'Herald y

l dud. 11